

TOURING NORTH WALES II TEITHIO GOGLEDD CYMRU II

Travelling around North Wales in 1771 was an adventure. There were few roads that we would recognise as such. Sir Watkin and companions travelled on horseback; the baggage following in a cart where the road allowed.

Roedd teithio o gwmpas Gogledd Cymru ym 1771 yn antur. Ychydig iawn o ffyrdd y gellid eu hystyried yn ffyrdd. Roedd Syr Watkin a'i gymdeithion yn teithio ar geffylau; roedd cert a oedd yn cludo'u bagiau yn eu dilyn lle'r roedd y ffordd yn caniatáu hynny.

Sir Watkin used guides to ensure the party did not get lost, and employed locals, as sherpas, to carry the baggage when the cart was not available. The three lads who carried the baggage from Pont Aberglaslyn to Caernarfon received a shilling each for all their hard work, yet the guide to Snowdon earned 2s 6d and the boatman at Llanberis 10s 6d.

Roedd Syr Watkin yn defnyddio tywyswyr i sicrhau nad oedd y parti yn mynd ar goll, a chyflogodd bobl leol i weithio fel sherpaid, i gario'r bagiau pan nad oedd y gert ar gael. Swilt yn unig am eu holl waith caled gafodd y tri llanc a gariodd y bagiau o Bont Aberglaslyn i Gaernarfon, ond cafodd y tywysydd i'r Wyddfa 2s 6d a chafodd y cychwr yn Llanberis 10s 6d.

Paul Sandby spent his time sketching the scenes that would inspire his best art. Perhaps the dramatic scenery around Pont Aberglaslyn gave him the inspiration to highlight the *romantic* in his aquatints.

Treuliodd Paul Sandby ei amser yn tynnu brasluniau o'r golygfeydd a fyddai'n ysbrydoli ei waith gorau. Efallai bod y golygfeydd dramatig o gwmpas Pont Aberglaslyn wedi ei ysbrydoli i amlygu'r elfennau *rhamantus* yn ei acwafintau.



The baggage cart had to cross by ferry at high tide the treacherous sands of the Traeth Mawr, near modern day Parthmadog. Roedd yn rhaid i'r gert a gludai'r bagiau ddefnyddio'r fferi yn ystod penllanw i grosi tywod peryglus Traeth Mawr h.y. ger Parthmadog heddiw.
Traeth Mawr, Paul Sandby, 1777. © Amgueddfa Cymru – National Museum Wales



Sandby found inspiration in the new industries, as well as the picturesque. Ysbrydolwyd Sandby gan y diwydiannau newydd yn ogystal â'r darluniadwy.
The Iron Forge between Dolgellau and Barmouth in Merionethshire, Paul Sandby, 1776. © Llyfrgell Genedlaethol Cymru – National Library of Wales



The art critics of the late 18th century found the scenery around Pont Aberglaslyn in Snowdonia sublime. Roedd beirniaid celfyddyd diwedd y 18fed ganrif yn ystyried y golygfeydd o gwmpas Pont Aberglaslyn yn Eryri yn aruchel.
Pont - Aber- Glaslyn, Paul Sandby, 1777. © Amgueddfa Cymru – National Museum Wales

Sandby captured the atmosphere of each place, often by including characters in the foreground that help tell the story of that location.

Llwyddodd Sandby i gyfleu awyrgylch pob lle, yn aml gwnâi hynny drwy gynnwys cymeriadau yn y blaendir i helpu i gyfleu stori'r lleoliad.

Saddle sore, the party arrived back at Wynnstay on September 4th, having ridden some 220 miles in all. After travelling the final twenty-three miles home from Holywell via Mold and Wrexham, Sir Watkin and Paul Sandby were probably unaware of the impact their tour would have. Sandby went on to produce twenty-two aquatints of North Wales that were more than just a visual record of the tour. The publication of his *XII Views in North Wales* in 1776 changed attitudes about Wales and landscape art in Britain.

Yn dindost, cyrhaeddodd y parti Wynnstay ar Fedi'r 4ydd, ar ôl marchogaeth tua 220 milltir i gyd. Wedi teithio'r tair milltir ar hugain olaf gartref o Dreffynnon drwy'r Wyddgrug a Wrecsam mwy na thebyg nad oedd Syr Watkin a Paul Sandby yn ymwybodol o'r effaith a gai eu taith. Aeth Sandby ymlaen i gynhyrchu dau ar hugain o acwafintau o Ogledd Cymru a oedd yn llawer mwy na chofnod gweledol o'r daith. O ganlyniad i gyhoeddi ei *XII Views in North Wales* ym 1776 newidiodd yr agweddau at Gymru a chelfyddyd tirluniau Prydain.



The Shepherd boy with his dog at Harlech Castle. Bachgen o fugal gyda'i gi yng Nghastell Harlech.
© Llyfrgell Genedlaethol Cymru – National Library of Wales



The Gentlemen admiring the Swallow Falls, near Betws y Coed. Y Bonheddwyr yn edmygu Rhaeadr yr Ewynnol, ger Betws y Coed.
© Llyfrgell Genedlaethol Cymru – National Library of Wales



Wrexham
COUNTY BUCKINGHAM
WRECHAM
WRECHAM